

2011 Rhif 2377(Cy. 250)

ANIFEILIAID, CYMRU

IECHYD ANIFEILIAID

IECHYD Y CYHOEDD, CYMRU

**Rheoliadau Sgil-gynhyrchion
Anifeiliaid (Gorfodi) (Rhif 2) (Cymru)
2011**

NODYN ESBONIADOL

(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Rheoliadau)

Mae'r Rheoliadau hyn yn gorfodi, yng Nghymru, Reoliad (EC) Rhif 1069/2009 Senedd Ewrop a'r Cyngor sy'n gosod rheolau iechyd o ran sgil-gynhyrchion anifeiliaid a chynhyrchion sy'n dod o anifeiliaid na fwriedir ar gyfer eu bwyta gan bobl ac sy'n diddymu Rheoliad (EC) Rhif 1774/2002. (OJ Rhif L 300, 14.11.2009, t 1) (“Rheoliad Rheolaeth yr UE”).

Mae'r Rheoliadau hyn hefyd yn gorfodi, yng Nghymru, Reoliad y Comisiwn Rhif 142/2011 sy'n gweithredu Rheoliad (EC) Rhif 1069/2009 Senedd Ewrop a'r Cyngor sy'n gosod rheolau iechyd o ran sgil-gynhyrchion anifeiliaid a chynhyrchion sy'n dod o anifeiliaid na fwriedir ar gyfer eu bwyta gan bobl ac sy'n gweithredu Cyfarwyddeb y Cyngor 97/78/EC o ran samplau ac eitemau penodol a eithrir o wiriadau milfeddygol wrth y ffin o dan y Gyfarwyddeb honno (OJ Rhif L 54, 26.02.2011) (“Rheoliad Gweithredu'r UE”).

O dan Reoliad Rheolaeth yr UE mae rhwymedigaethau ar weithredwyr mewn perthynas â sgil-gynhyrchion anifeiliaid, gan gynnwys rhwymedigaethau o ran gwaredu a defnyddio, gwaharddiadau ar fwydo, a rhoi ar y farchnad. Yn ychwanegol, mae gofynion ar weithredwyr, safleoedd a sefydliadau i gael eu cofrestru neu eu cymeradwyo. Mae'r rhwymedigaethau'n amrywio yn unol â chategoreiddio'r deunyddiau, caiff sgil-gynnyrch anifail mewn risg uwch ei gategoreiddio yn ddeunydd Categori 1,

y risg nesaf yw deunydd Categori 2 ac yna ddeunydd Categori 3. Mae Rheoliad Gweithredu'r UE yn atodi gofynion Rheoliad Rheolaeth yr UE.

Mae'r Rheoliadau hyn yn darparu ar gyfer y canlynol.

1. Mae Gweinidogion Cymru wedi eu dynodi'n awdurdod cymwys a cheir darpariaeth ar gyfer amrywio materion sy'n atodi'r gofynion sylfaenol fel a nodir yng nghlofn 2 o Atodlen 1 i'r Rheoliadau hyn, gan gynnwys dynodi ardaloedd pellennig a mynediad hefyd mewn perthynas â gwaharddiadau ar fwydo yn Erthygl 11 o Reoliad Rheolaeth yr UE (Rhan 2).

2. Y weithdrefn ac apelau mewn cysylltiad â chofrestru a chymeradwyo (Rhan 3).

3. Gorfodi'r gofynion drwy ddarparu ar gyfer tramgwyddau am dorri'r gofynion fel y'u dynodir yn y Tabl i Atodlen 1 (Rhan 4). Mae'r Tabl yn gosod gofynion Rheoliad Rheolaeth yr UE a Rheoliad Gweithredu'r UE fel y'u hatodir gan ofynion Rheoliad Gweithredu'r UE a'r Rheoliadau hyn, pan fônt yn gymwys. Mae Rheoliad Rheolaeth yr UE a Rheoliad Gweithredu'r UE yn galluogi'r awdurdod cymwys, Gweinidogion Cymru, i roi awdurdodiadau mewn perthynas â gofynion o'r fath. Mae awdurdodiadau o'r fath yn galluogi'r awdurdod cymwys i ddyfarnu a yw cynnyrch yn risg i iechyd dynol neu i iechyd anifeiliaid ai peidio, er enghraifft. Trefnir y bydd rhestr gyflawn o bob awdurdodiad a ddarperir o dan y gofynion ar gael ar wefan Llywodraeth Cymru (www.cymru.gov.uk). Yn ychwanegol, bydd y wefan honno yn trefnu y bydd yr awdurdodiadau a arferir gan Weinidogion Cymru ar gael.

4. Gorfodi, drwy benodi awdurdodau gorfodi a darparu ar gyfer pwerau gorfodi (Rhan 5).

5. Darpariaethau canlyniadol (Rhan 6 ac Atodlen 2) a dirymiadau a darpariaeth drosiannol (Rhan 7). Yn benodol, mae'r Rheoliadau hyn yn dirymu Rheoliadau Sgilygyrchion Anifeiliaid (Gorfodi) (Cymru) 2011 (O.S. 2011/600 (Cy.88)).

Mae asesiad effaith reoleiddiol o'r effaith a gaiff yr offeryn hwn ar gostau busnes ac ar y sector gwirfoddol ar gael ar wefan Llywodraeth Cymru (www.cymru.gov.uk).

2011 Rhif 2377(Cy. 250)

ANIFEILIAID, CYMRU

IECHYD ANIFEILIAID

IECHYD Y CYHOEDD, CYMRU

Rheoliadau Sgil-gynhyrchion
Anifeiliaid (Gorfodi) (Rhif 2) (Cymru)
2011

Gwnaed

27 Medi 2011

Gosodwyd gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru

28 Medi 2011

Yn dod i rym yn unol â rheoliad 31

CYNNWYS

RHAN 1

Cyflwyniad

1. Enwi, cychwyn a chymhwyso
2. Dehongli

RHAN 2

Yr awdurdod cymwys a darpariaethau amrywiol

3. Yr awdurdod cymwys
- 4.-6. Mynediad
7. Defnyddio gwrtaith organig a deunyddiau i wella pridd
8. Canolfannau casglu
9. Ardaloedd pellennig
10. Rhoi ar y farchnad

RHAN 3

Cofrestru a chymeradwyo

11. Y weithdrefn ar gyfer cofrestru safleoedd a sefydliadau
12. Hysbysiadau awdurdod cymwys mewn cysylltiad â chofrestru
13. Y weithdrefn ar gyfer cymeradwyo
14. Hysbysiad mewn cysylltiad â phenderfyniadau ar gymeradwyo
15. Y rhesymau dros benderfyniadau
16. Y weithdrefn apelio

RHAN 4

Tramgwyddau a chosbau

17. Tramgwyddau mewn cysylltiad â Rheoliad Rheolaeth yr UE a Rheoliad Gweithredu'r UE
18. Y tramgwydd o rwystro
19. Tramgwyddau corfforaethol, tramgwyddau partneriaeth a thramgwyddau cymdeithas anghorfforedig
20. Cosbau

RHAN 5

Gorfodi

21. Awdurdod gorfodi
22. Person awdurdodedig
23. Pwerau mynediad a phwerau ychwanegol
24. Gwarant
25. Hysbysiadau a gyflwynir gan berson awdurdodedig
26. Y pŵer i ddatgelu gwybodaeth at ddibenion gorfodi

RHAN 6

Diwygiadau canlyniadol

27. Diwygiadau canlyniadol

RHAN 7

Dirymiadau, darpariaeth drosiannol a chychwyn

28. Dirymu Rheoliadau Sgil-gynhyrchion Anifeiliaid (Gorfodi) (Cymru) 2011
29. Dirymadau eraill
30. Darpariaeth drosiannol
31. Cychwyn

ATODLEN 1 — Gofynion Sgil-gynhyrchion Anifeiliaid

ATODLEN 2 — Diwygiadau Canlyniadol

Mae Gweinidogion Cymru yn gwneud y Rheoliadau a ganlyn drwy arfer y pwerau a roddwyd iddynt gan adran 2(2) o Ddeddf y Cymunedau Ewropeaidd 1972, fel y'i darllenir ynghyd â pharagraff 1A o Atodlen 2 iddi(1).

Mae Gweinidogion Cymru wedi eu dynodi at ddibenion adran 2(2) o Ddeddf y Cymunedau Ewropeaidd 1972 mewn perthynas â mesurau yn y meysydd milfeddygol a ffotoiechydol ar gyfer amddiffyn iechyd y cyhoedd(2).

Mae'r Rheoliadau hyn yn gwneud darpariaeth ar gyfer diben a grybwyllir yn adran 2(2) o Ddeddf y Cymunedau Ewropeaidd 1972 ac mae'n ymddangos i Weinidogion Cymru ei bod yn hwylus i unrhyw gyfeiriad at Reoliad y Comisiwn (EU) Rhif 142/2011 (sy'n gweithredu Rheoliad (EC) Rhif 1069/2009 Senedd Ewrop a'r Cyngor sy'n gosod rheolau iechyd mewn cysylltiad â sgil-gynhyrchion anifeiliaid a chynhyrchion sy'n dod o anifeiliaid na fwriedir ar gyfer eu bwyta gan bobl ac sy'n gweithredu Cyfarwyddeb y Cyngor 97/78/EC mewn cysylltiad â samplau ac eitemau penodol a eithrir o wiriadau milfeddygol wrth y ffin o dan y Gyfarwyddeb honno(3)) gael ei ddehongli fel cyfeiriad at yr offeryn hwnnw fel y'i diwygiwyd o bryd i'w gilydd.

(1) 1972 p. 68. Mewnoddwyd paragraff 1A o Atodlen 2 gan adran 28 o Ddeddf Diwygio Deddfwriaethol a Rheoleiddiol 2006 (p. 51).

(2) O.S. 2008/1792.

(3) OJ Rhif L 54, 26.02.2011, a ddiwygiwyd gan Gyfarwyddeb y Cyngor 2010/63/EU (OJ Rhif L 276, 20.10.2010, t 33).

RHAN 1

Cyflwyniad

Enwi, cychwyn a chymhwyso

1. O ran y Rheoliadau hyn—

- (a) eu henw yw Rheoliadau Sgil-gynhyrchion Anifeiliaid (Gorfodi) (Rhif 2) (Cymru) 2011;
- (b) maent yn dod i rym yn unol â rheoliad 31; ac
- (c) maent yn gymwys o ran Cymru.

Dehongli

2.—(1) Yn y Rheoliadau hyn—

mae i “awdurdod cymwys” (*“competent authority”*) yr ystyr a roddir yn rheoliad 3;

ystyr “awdurdod gorfodi” (*“enforcement authority”*) yw corff sy'n arfer swyddogaethau o dan reoliad 21(1) neu (2);

mae i “gofyniad sgil-gynhyrchion anifeiliaid” (*“animal by-product requirement”*) yr ystyr a roddir yn rheoliad 17(2);

mae “llong” (*“ship”*) yn cynnwys hofranlong, cwch ymsuddol neu unrhyw gwch arnofiol arall ond nid llestr—

- (a) sy'n gorwedd yn barhaol ar wely'r môr neu sydd ynghlwm yn barhaol wrth wely'r môr; neu
- (b) sy'n osodiad o fewn adran 16 o Ddeddf Ynni 2008(1);

mae “mangre” (*“premises”*) yn cynnwys—

- (a) unrhyw dir, adeilad, sied neu gorlan;
- (b) unrhyw ddaliedydd neu gynhwysydd;
- (c) unrhyw long; neu
- (ch) cerbyd o unrhyw ddisgrifiad;

ystyr “person awdurdodedig” (*“authorised person”*) yw person a awdurdodwyd o dan reoliad 22;

ystyr “Rheoliad Gweithredu'r UE” (*“EU Implementing Regulation”*) yw Rheoliad y Comisiwn (EU) Rhif 142/2011 sy'n gweithredu Rheoliad (EC) Rhif 1069/2009 Senedd Ewrop a'r Cyngor sy'n gosod rheolau iechyd mewn perthynas â sgil-gynhyrchion anifeiliaid a chynhyrchion sy'n dod o anifeiliaid na fwriedir ar gyfer eu bwyta gan bobl ac sy'n gweithredu Cyfarwyddeb y Cyngor 97/78/EC mewn cysylltiad â

(1) 2008 p. 32.

samplau ac eitemau penodol a eithrir o wiriadau milfeddygol wrth y ffin o dan y Gyfarwyddeb honno(1) fel y'i diwygir o bryd i'w gilydd;

ystyr “Rheoliad Rheolaeth yr UE” (“*EU Control Regulation*”) yw Rheoliad (EC) Rhif 1069/2009 Senedd Ewrop a'r Cyngor sy'n gosod rheolau iechyd mewn cysylltiad â sgil-gynhyrchion anifeiliaid a chynhyrchion sy'n dod o anifeiliaid na fwriedir ar gyfer eu bwyta gan bobl ac sy'n diddymu Rheoliad (EC) Rhif 1774/2002 (Rheoliad Sgil-gynhyrchion Anifeiliaid)(2).

(2) Mae i ymadroddion a ddefnyddir yn y Rheoliadau hyn ac a ddefnyddir hefyd yn Rheoliad Rheolaeth yr UE neu yn Rheoliad Gweithredu'r UE yr un ystyr yn y Rheoliadau hyn ag a roddir i'r ymadroddion Saesneg cyfatebol yn Rheoliad Rheolaeth yr UE neu yn Rheoliad Gweithredu'r UE.

RHAN 2

Yr awdurdod cymwys a darpariaethau amrywiol

Yr awdurdod cymwys

3. Yr awdurdod cymwys at ddibenion Rheoliad Rheolaeth yr UE a Rheoliad Gweithredu'r UE yw Gweinidogion Cymru.

Mynediad

4. Mewn perthynas â gwaharddiad ar fwydo yn Erthygl 11(1)(a), (b) neu (d) (cyfyngiadau ar ddefnydd) o Rheoliad Rheolaeth yr UE, mae gofynion rheoliad 5 yn gymwys.

5.—(1) Rhaid peidio â chludo sgil-gynhyrchion anifeiliaid, gan gynnwys gwastraff arlwygo, i unrhyw fangre pe bai gan anifeiliaid a ffermir fynediad at sgil-gynhyrchion anifeiliaid o'r fath.

(2) Nid yw paragraff (1) yn gymwys ar gyfer cynhyrchion sy'n dod o anifeiliaid, ac eithrio—

- (a) cynhyrchion sy'n dod o wastraff arlwygo; neu
- (b) blawd cig ac esgyrn sy'n dod o ddeunydd Categori 2 a phroteinau anifeiliaid wedi eu prosesu y bwriadwyd eu defnyddio fel gwrteithiau organig a deunyddiau i wella pridd neu eu defnyddio ynddynt, nad ydynt yn cydymffurfio â gofynion

(1) OJ Rhif L 54, 26.02.2011.

(2) OJ Rhif L 300, 14.11.2009, t1.

Erthygl 32(1)(d) (rhoi ar y farchnad a defnyddio)
o Reoliad Rheolaeth yr UE.

6. Rhaid cadw carcass neu ran o garcass unrhyw anifail a ffermir na chafodd ei gigydda ar gyfer ei fwyta gan bobl, hyd nes y'i traddodir neu y'i gwaredir, yn y fath fodd a fydd yn sicrhau na fydd unrhyw anifail neu aderyn yn gallu cael mynediad at y carcass neu'r rhan o garcass.

Defnyddio gwrteithiau organig a deunyddiau i wella pridd

7.—(1) Os defnyddir gwrteithiau organig neu ddeunyddiau i wella pridd ar dir, ni chaiff neb ganiatáu i foch gael mynediad at y tir hwnnw na chael eu bwydo â phorfa wedi ei dorri o dir o'r fath am gyfnod o 60 o ddiwrnodau sy'n dechrau ar yr adeg y defnyddir y gwrteithiau organig neu'r deunyddiau i wella pridd.

(2) Nid yw paragraff (1) yn gymwys ar gyfer y gwrteithiau organig neu'r deunyddiau i wella pridd a ganlyn—

- (a) tail;
- (b) llaeth;
- (c) cynhyrchion yn seiliedig ar laeth;
- (ch) cynhyrchion sy'n dod o laeth;
- (d) llaeth tor;
- (dd) cynhyrchion o laeth tor; neu
- (e) cynnwys y llwybr treulio.

Canolfannau casglu

8. Mae safle prosesu ar gyfer deunydd Categori 2 a gafodd ei gymeradwyo at ddibenion bod yn ganolfan gasglu ar gyfer deunydd Categori 2 wedi ei awdurdodi'n ganolfan gasglu.

Ardaloedd pellennig

9. Mae'r ardaloedd canlynol yn ardaloedd pellennig at ddibenion Erthygl 19(1)(b) o Reoliad Rheolaeth yr UE (casglu, cludo a gwaredu)—

- (a) Ynys Enlli;
- (b) Ynys Byr;
- (c) Ynys Dewi;
- (ch) Ynys Echni.

Rhoi ar y farchnad

10. Mae rhoi ar y farchnad wllân sydd heb ei drin a blew sydd heb ei drin o ffermydd neu o sefydliadau neu

safleoedd wedi cael ei awdurdodi ac eithrio os ydynt yn cyflwyno risg o unrhyw glefyd trosglwyddadwy drwy'r cynhyrchion hynny i fodau dynol neu i anifeiliaid.

RHAN 3

Cofrestru a chymeradwyo

Y weithdrefn ar gyfer cofrestru safleoedd a sefydliadau

11. Rhaid hysbysu'r awdurdod cymwys yn ysgrifenedig, pan fo hynny'n cael ei wneud—

- (a) gyda'r bwriad o gofrestru yn unol ag Erthygl 23(1) (cofrestru gweithredwyr, sefydliadau neu safleoedd) o Reoliad Rheolaeth yr UE; neu
- (b) hysbysu'r awdurdod o newidiadau yn unol ag Erthygl 23(2) am y Rheoliad hwnnw.

Hysbysiadau am awdurdod cymwys mewn cysylltiad â chofrestru

12. Rhaid i'r awdurdod cymwys roi hysbysiad ysgrifenedig i'r canlynol—

- (a) y gweithredwr sydd wedi hysbysu yn unol â rheoliad 11 am y canlynol—
 - (i) cofrestriad gweithredwr o'r fath; neu
 - (ii) y penderfyniad i beidio â chofrestru;
- (b) gweithredwr cofrestredig am y canlynol—
 - (i) gwaharddiad a wnaed o dan Erthygl 46(2) (gwaharddiad ar weithrediadau) o Reoliad Rheolaeth yr UE;
 - (ii) gofyniad i gydymffurfio ag Erthygl 23(1)(b) neu (2) o Reoliad Rheolaeth yr UE (gwybodaeth am weithgareddau a'r wybodaeth ddiweddaraf);
 - (iii) diwygiad o'r cofrestriad neu ddiweddu'r cofrestriad pan fo gweithredwr wedi hysbysu'r awdurdod cymwys am gau sefydliad yn unol ag Erthygl 23(2) (yr wybodaeth ddiweddaraf) o Reoliad Rheolaeth yr UE.

Y weithdrefn ar gyfer cymeradwyo

13. Rhaid i weithredwyr y mae Erthygl 24(1) (cymeradwyo sefydliadau neu safleoedd) o Reoliad Rheolaeth yr UE yn gymwys iddynt, wneud cais ysgrifenedig i awdurdod cymwys i gael eu cymeradwyaeth, gan gynnwys cymeradwyaeth ar ôl cael

cymeradwyaeth dros dro pan fo Erthygl 33 o Reoliad Gweithredu'r UE (ailgymeradwyo safleoedd a sefydliadau ar ôl rhoi cymeradwyaeth dros dro) yn gymwys.

Hysbysiad mewn cysylltiad â phenderfyniadau ar gymeradwyo

14. Rhaid i'r awdurdod cymwys roi hysbysiad ysgrifenedig i'r canlynol—

- (a) y ceisydd am gymeradwyaeth, am y canlynol—
 - (i) rhoi cymeradwyaeth yn unol ag Erthyglau 24 (cymeradwyo) a 44 (y weithdrefn ar gyfer cymeradwyo) o Reoliad Rheolaeth yr UE;
 - (ii) rhoi cymeradwyaeth amodol yn unol ag Erthyglau 24 a 44 o Reoliad Rheolaeth yr UE, neu ymestyn y gymeradwyaeth honno yn unol â'r Erthygl honno; neu
 - (iii) gwrthod rhoi cymeradwyaeth mewn cysylltiad â chais cychwynnol neu estyniad;
- (b) pan fo cymeradwyaeth amodol wedi cael ei rhoi yn unol ag Erthyglau 24 a 44 o Reoliad Rheolaeth yr UE, gweithredwr y safle neu'r sefydliad yn ddarostyngedig i gymeradwyaeth o'r fath, am y canlynol—
 - (i) rhoi cymeradwyaeth lawn;
 - (ii) ymestyn cymeradwyaeth o'r fath;
 - (iii) gosod amodau yn unol ag Erthygl 46(1)(c) (ataliadau dros dro, tynnu'n ôl a gwaharddiadau ar weithredwyr) o Reoliad Rheolaeth yr UE;
 - (iv) atal dros dro gymeradwyaeth o'r fath yn unol ag Erthygl 46(1)(a) o Reoliad Rheolaeth yr UE;
 - (v) tynnu'n ôl gymeradwyaeth o'r fath yn unol ag Erthygl 46(1)(b) o Reoliad Rheolaeth yr UE;
 - (vi) gwneud gwaharddiad yn unol ag Erthygl 46(2) o Reoliad Rheolaeth yr UE; neu
 - (vii) gwrthod ymestyn cymeradwyaeth lawn neu wrthod rhoi cymeradwyaeth lawn;
- (c) gweithredwr safle neu sefydliad wedi ei gymeradwyo, am y canlynol—
 - (i) gosod amodau yn unol ag Erthygl 46(1)(c) o Reoliad Rheolaeth yr UE (atal dros dro, tynnu'n ôl);
 - (ii) atal dros dro gymeradwyaeth o'r fath yn unol ag Erthygl 46(1)(a) o Reoliad Rheolaeth yr UE;

- (iii) gwneud gwaharddiad yn unol ag Erthygl 46(2) o Reoliad Rheolaeth yr UE; neu
- (iv) tynnu'n ôl gymeradwyaeth o'r fath yn unol ag Erthygl 46(1)(b) o Reoliad Rheolaeth yr UE.

Y rhesymau dros y penderfyniadau

15.—(1) Pan fo'r awdurdod cymwys yn gwneud penderfyniad ac yn hysbysu yn unol â rheoliad 12 neu reoliad 14, rhaid i'r awdurdod cymwys roi rhesymau ysgrifenedig am y penderfyniad hwnnw.

(2) Nid yw paragraff (1) yn gymwys i benderfyniadau a hysbyswyd o dan—

- (a) rheoliad 12(a)(i);
- (b) rheoliad 14(a)(i); neu
- (c) rheoliad 14(b)(i) neu (ii).

Y weithdrefn apelio

16.—(1) Pan fo'r awdurdod cymwys wedi gwneud penderfyniad y mae rheoliad 15(1) yn gymwys iddo, caiff person apelio yn ei erbyn drwy wneud sylwadau ysgrifenedig, o fewn 21 o ddiwrnodau o'r hysbysiad am y penderfyniad hwnnw, i berson a benodwyd at y diben gan Weinidogion Cymru.

(2) Caiff yr awdurdod cymwys hefyd wneud sylwadau ysgrifenedig i'r person penodedig ynglŷn â'r penderfyniad.

(3) Rhaid i'r person penodedig wedyn gyflwyno adroddiad ysgrifenedig i Weinidogion Cymru.

(4) Rhaid i Weinidogion Cymru roi i'r ceisydd hysbysiad ysgrifenedig am ddyfarniad terfynol Gweinidogion Cymru a'r rhesymau drosto.

RHAN 4

Tramgwyddau a chosbau

Tramgwyddau mewn cysylltiad â Rheoliad Rheolaeth yr UE a Rheoliad Gweithredu'r UE

17.—(1) Mae person sy'n methu â chydymffurfio â gofyniad sgil-gynhyrchion anifeiliaid yn cyflawni tramgwydd.

(2) Ystyr “gofyniad sgil-gynhyrchion anifeiliaid” (“*animal by-product requirement*”) yw unrhyw ofyniad yng Ngholofn 2 o Atodlen 1 i'r Rheoliadau hyn fel y'u darllenir ynghyd â'r darpariaethau yng Ngholofn 3 i'r Atodlen honno.

Y tramgwydd o rwystro

18. Mae'n dramgwydd—

- (a) yn fwriadol i rwystro person awdurdodedig;
- (b) heb achos rhesymol i fethu â rhoi i berson awdurdodedig unrhyw wybodaeth neu gymorth neu i ddarparu unrhyw gyfleusterau y gall person o'r fath yn rhesymol ei gwneud neu ei wneud yn ofynnol;
- (c) gan wybod neu'n ddi-hid roi gwybodaeth anwir neu gamarweiniol i berson awdurdodedig; neu
- (ch) i fethu â dangos cofnod neu ddogfen pan fo person awdurdodedig yn gofyn amdano neu amdani.

Tramgwyddau corfforaethol, tramgwyddau partneriaeth a thramgwyddau cymdeithas anghorfforedig

19.—(1) Pan fo—

- (a) tramgwydd o dan y Rheoliadau hyn wedi cael ei gyflawni gan gorff corfforaethol neu gan bartneriaeth neu gan bartneriaeth Albanaidd neu gan gymdeithas anghorfforedig arall; a
- (b) pan brofir bod tramgwydd wedi ei gyflawni gyda chydysniad neu ymoddefiad unigolyn perthnasol, neu wedi ei briodoli i unrhyw esgeulustod ar ei ran, (gan gynnwys unigolyn sy'n honni ei fod yn gweithredu yn swyddogaeth unigolyn perthnasol),

mae'r unigolyn perthnasol yn ogystal â'r corff corfforaethol, y bartneriaeth, y bartneriaeth Albanaidd neu'r gymdeithas anghorfforedig, yn euog o'r tramgwydd ac mae'n atebol i gael achos yn ei erbyn neu yn ei herbyn a'i gosbi neu ei chosbi yn unol â hynny.

(2) Ym mharagraff (1), ystyr “unigolyn perthnasol” (“*relevant individual*”) yw—

- (a) mewn perthynas â chorff corfforaethol—
 - (i) cyfarwyddwr, rheolwr, ysgrifennydd neu swyddog tebyg arall o'r corff;
 - (ii) pan fo materion y corff yn cael eu rheoli gan ei aelodau, aelod;
- (b) mewn perthynas â phartneriaeth neu bartneriaeth Albanaidd, partner ynddi;
- (c) mewn perthynas â chymdeithas anghorfforedig ac eithrio partneriaeth Albanaidd, person sy'n ymwneud â rheolaeth neu reoli'r gymdeithas.

(3) Caniateir dwyn achos o dramgwydd o dan y Rheoliadau hyn yr honnir ei fod wedi ei gyflawni gan bartneriaeth neu gymdeithas anghorfforedig yn erbyn y

bartneriaeth neu'r gymdeithas yn enw'r bartneriaeth neu'r gymdeithas.

(4) At ddibenion yr achosion ym mharagraff (3)—

- (a) mae rheolau'r llys sy'n ymwneud â chyflwyno dogfennau i gael effaith fel pe bai'r bartneriaeth neu'r gymdeithas anghorfforedig yn gorff corfforaethol; a
- (b) mae'r darpariaethau canlynol yn gymwys fel y maent yn gymwys mewn perthynas â chorff corfforaethol—
 - (i) adran 33 o Ddeddf Cyfiawnder Troseddol 1925(1); a
 - (ii) Atodlen 3 i Ddeddf Llysoedd Ynadon 1980(2).

(5) Mae dirwy a osodir ar bartneriaeth neu gymdeithas anghorfforedig wrth eu collfarnu o dramgwydd o dan y Rheoliadau hyn i'w thalu allan o gronfeydd y bartneriaeth neu'r gymdeithas.

Cosbau

20. Mae person sy'n euog o dramgwydd o dan y Rheoliadau hyn yn atebol—

- (a) ar gollfarn ddiannod, i ddirwy nad yw'n fwy na'r uchafswm statudol neu garchariad am gyfnod nad yw'n fwy na thri mis, neu'r ddau; neu
- (b) ar gollfarn ar dditiad, i ddirwy neu garchariad am gyfnod nad yw'n fwy na dwy flynedd, neu'r ddau.

RHAN 5

Gorfodi

Awdurdod gorfodi

21.—(1) Caiff y Rheoliadau hyn eu gorfodi gan y canlynol—

- (a) yr awdurdod lleol;

-
- (1) 1925 p. 86. Diddymwyd is-adrannau (1), (2) a (5) o adran 33 gan Ddeddf Llysoedd Ynadon 1952 (p. 55), adran 132 ac Atodlen 6; diwygiwyd is-adran (3) gan Ddeddf y Llysoedd 1971 (p. 23), adran 56(1) ac Atodlen 8, Rhan 2, paragraff 19; diddymwyd is-adran (4) yn rhannol gan Ddeddf y Llysoedd 2003 (p. 39), adran 109(1) a (3), Atodlen 8, paragraff 71 ac Atodlen 10.
 - (2) 1980 p. 43. Diwygiwyd paragraff 2(a) gan Ddeddf Gweithdrefn ac Ymchwiliadau Troseddol 1996 (p. 25), adran 47, Atodlen 1, paragraff 13; diddymwyd paragraff 5 gan Ddeddf Cyfiawnder Troseddol 1991 (p. 53), adrannau 25(2) a 101(2) ac Atodlen 13.

- (b) yr awdurdod iechyd porthladd mewn perthynas â dosbarth iechyd porthladd a gyfansoddwyd drwy orchymyn o dan adran 2(3) o Ddeddf Iechyd y Cyhoedd (Rheoli Clefydau) 1984(1), neu
- (c) Gweinidogion Cymru mewn perthynas â sefydliadau hylendid bwyd.

(2) Nid yw paragraffau (1)(a) a (b) yn gymwys pan fo Gweinidogion Cymru'n cyfarwyddo bod y ddyletswydd orfodi i'w harfer mewn perthynas ag achosion o ddisgrifiad penodol neu unrhyw achos penodol gan Weinidogion Cymru.

(3) Ym mharagraff (1)(a) ystyr “awdurdod lleol” (*“local authority”*) mewn perthynas ag ardal yw'r cyngor sir neu'r cyngor bwrdeistref sirol ar gyfer yr ardal honno;

(4) Ym mharagraff (1)(b) ystyr “awdurdod iechyd porthladd” (*“port health authority”*) yw'r awdurdod iechyd porthladd ar gyfer y dosbarth hwnnw.

(5) Ym mharagraff (1)(c), ystyr “sefydliad hylendid bwyd” (*“food hygiene establishment”*) yw sefydliad y cyfeirir ato yn rheoliad 5(2) o Reoliadau Hylendid Bwyd (Cymru) 2006(2) y mae gan yr Asiantaeth Safonau Bwyd swyddogaethau gorfodi mewn perthynas ag ef o dan y Rheoliadau hynny.

Person awdurdodedig

22. Caiff awdurdod gorfodi awdurdodi'n ysgrifenedig y personau hynny y mae'r awdurdod yn ystyried eu bod yn briodol i weithredu at ddibenion gorfodi'r Rheoliadau hyn.

Pwerau mynediad a phwerau ychwanegol

23.—(1) Caiff person awdurdodedig, wrth ddangos awdurdod y person hwnnw os gofynnir amdano—

- (a) mynd i mewn i fangre a'i harchwilio (ac eithrio tŷ annedd) ar bob adeg resymol;
- (b) mynd â'r personau eraill hynny gydag ef ac unrhyw gyfarpar neu ddeunyddiau fel bo angen;
- (c) gwneud yr archwiliad hwnnw neu'r ymchwiliad hwnnw fel bo angen;
- (ch) cyfarwyddo y bydd y fangre, neu ran ohoni, yn cael ei gadael heb aflonyddu arni (p'un ai'n gyffredinol neu mewn agweddau penodol) am ba amser bynnag sy'n rhesymol angenrheidiol at ddibenion unrhyw archwiliad neu ymchwiliad o dan is-baragraff (c);

(1) 1984 p. 22.

(2) O.S. 2006/31 (Cy.5).

(d) cymryd y mesurau hynny a'r ffotograffau hynny a gwneud y cofnodion hynny ag a ystyrir yn angenrheidiol at ddibenion unrhyw archwiliad neu ymchwiliad o dan is-baragraff (c);

(dd) yn achos unrhyw eitem neu sylwedd a ganfyddir yn neu ar y fangre—

(i) cymryd samplau;

(ii) ei phrofi neu ei brofi neu ei gwneud neu ei wneud yn destun unrhyw broses, os yw'n ymddangos ei bod neu ei fod wedi peri niwed neu'n debygol o beri niwed i iechyd dynol neu i iechyd anifeiliaid neu blanhigion;

(iii) cymryd meddiant ohoni neu ohono a'i chadw neu ei gadw cyhyd ag y bo'n angenrheidiol—

(aa) i'w harchwilio neu i'w archwilio ac arfer y pŵer o fewn paragraff (ii);

(bb) sicrhau nad oes neb yn ymyrryd â hi neu ag ef cyn cwblhau ei harchwilio neu ei archwilio; ac

(cc) sicrhau ei bod ar gael neu ei fod ar gael i'w defnyddio neu i'w ddefnyddio fel tystiolaeth mewn unrhyw achos am dramgwydd o dan y Rheoliadau hyn;

(e) ei gwneud yn ofynnol bod unrhyw gofnodion y mae'n angenrheidiol eu gweld at ddibenion unrhyw archwiliad neu ymchwiliad o dan is-baragraff (c) yn cael eu dangos neu pan fo'r wybodaeth wedi ei chofnodi ar ffurf gyfrifiadurol bod detholiad o'r cofnodion yn cael ei ddangos, ac archwilio a chymryd copïau o'r cofnodion hynny, neu unrhyw gofnod ynddynt;

(f) ei gwneud yn ofynnol i unrhyw berson roi'r cyfleusterau hynny a'r cymorth hwnnw mewn perthynas ag unrhyw faterion neu bethau o dan reolaeth y person hwnnw neu y mae gan y person hwnnw gyfrifoldebau mewn perthynas â hwy ag sy'n angenrheidiol er mwyn galluogi'r person awdurdodedig i arfer unrhyw un o'r pwerau a roddir iddo gan y rheoliad hwn; neu

(ff) marcio unrhyw anifail neu sgil-gynnyrch anifail fel y mae'r person awdurdodedig yn ystyried ei fod yn angenrheidiol.

(2) Pan fo person awdurdodedig yn bwriadu arfer y pŵer ym mharagraff (1)(dd)(ii), rhaid i'r person awdurdodedig—

(a) os gofynnir hynny gan berson sydd yn bresennol ar y pryd ac y mae ganddo gyfrifoldebau mewn perthynas â'r fangre honno, peri bod unrhyw beth

sydd i'w wneud yn rhinwedd y pŵer hwnnw yn cael ei wneud ym mhresenoldeb y person hwnnw;

- (b) ymgynghori â'r personau hynny y mae'n ymddangos i'r person awdurdodedig bod hynny'n briodol at ddibenion canfod pa beryglon, os oes rhai, y gallai ddigwydd wrth wneud unrhyw beth y bwriedir ei wneud o dan y pŵer hwnnw.

(3) Pan fo person awdurdodedig mewn perthynas â'r pŵer ym mharagraff (1)(dd)(iii)—

- (a) yn bwriadu arfer y pŵer hwnnw, rhaid i'r person awdurdodedig, os yw'n ymarferol i wneud hynny, gymryd sampl o'r eitem neu'r sylwedd a rhoi i berson cyfrifol yn y fangre gyfran o'r sampl wedi ei marcio mewn dull sy'n ddigonol i'w hadnabod; neu
- (b) yn arfer y pŵer hwnnw, rhaid i'r person awdurdodedig adael hysbysiad sy'n rhoi manylion am yr eitem neu'r sylwedd sy'n ddigonol i ddynodi beth ydyw ac yn datgan bod meddiant wedi ei gymryd ohoni neu ohono, ac mae hysbysiad o'r fath i gael ei adael naill ai—
 - (i) gyda pherson cyfrifol; neu
 - (ii) os nad yw hynny'n ymarferol, wedi ei osod yn sownd mewn lle amlwg yn y fangre honno.

(4) Nid oes dim yn y rheoliad hwn sy'n gorfodi unrhyw berson i ddangos dogfen y byddai hawl gan y person hwnnw i'w dal yn ôl rhag ei dangos ar sail braint broffesiynol gyfreithiol dan orchymyn datgelu mewn achos yn yr Uchel Lys.

Gwarant

24.—(1) Os bydd, mewn perthynas â'r pŵer i fynd i mewn i fangre o dan reoliad 23, ynad heddwch, drwy wybodaeth ysgrifenedig ar lw—

- (a) wedi ei fodloni bod seiliau rhesymol dros gredu bod unrhyw wybodaeth neu ddeunydd yn berthnasol i'r archwiliad neu'r ymchwiliad o dan reoliad 23(1)(c) yn unrhyw fangre o'r fath; a
- (b) wedi ei fodloni—
 - (i) bod mynediad i'r fangre honno wedi ei wrthod, neu'n debygol o gael ei wrthod, a bod hysbysiad o'r bwriad i wneud cais am warant wedi ei roi i'r meddiannydd; neu
 - (ii) y byddai cais am fynediad, neu roi hysbysiad o'r fath, yn mynd yn groes i'r amcan o fynd i mewn, neu fod yr achos yn achos brys, neu fod y fangre honno heb ei meddiannu neu fod y meddiannydd yn absennol dros dro,

caiff yr ynad drwy warant, a fydd yn parhau mewn grym am gyfnod o fis, awdurdodi person awdurdodedig i fynd i mewn i'r fangre, drwy ddefnyddio grym os yw hynny'n angenrheidiol.

(2) Os bydd, mewn perthynas â thŷ annedd, ynad heddwch drwy wybodaeth ysgrifenedig ar lw—

- (a) wedi ei fodloni bod seiliau rhesymol dros gredu bod unrhyw wybodaeth neu ddeunydd yn berthnasol i'r archwiliad neu'r ymchwiliad at ddibenion gorfodi Rheoliad Rheolaeth yr UE, Rheoliad Gweithredu'r UE a'r Rheoliadau hyn mewn mangre o'r fath; a
- (b) wedi ei fodloni bod—
 - (i) mynediad i'r fangre honno wedi ei wrthod, neu'n debygol o gael ei wrthod, a bod hysbysiad o'r bwriad i wneud cais am warant wedi ei roi i'r meddiannydd; neu
 - (ii) y byddai cais am fynediad, neu roi hysbysiad o'r fath, yn mynd yn groes i'r amcan o fynd i mewn, neu fod yr achos yn achos brys, neu fod y fangre honno heb ei meddiannu neu fod y meddiannydd yn absennol dros dro,

caiff yr ynad drwy warant, a fydd yn parhau mewn grym am gyfnod o fis, awdurdodi person awdurdodedig i fynd i mewn i'r fangre honno, drwy ddefnyddio grym os yw hynny'n angenrheidiol, a'i harchwilio.

(3) Pan fo person awdurdodedig wedi ei awdurdodi o dan baragraff (2) i fynd i mewn drwy warant, bydd gan y person awdurdodedig y pwerau yn rheoliad 23(1)(b) i (ff).

Hysbysiadau a gyflwynir gan berson awdurdodedig

25.—(1) Caiff person awdurdodedig gyflwyno hysbysiad yn unol â pharagraff (2) pan fo'r person hwnnw—

- (a) yn ystyried bod gofyniad sgil-gynhyrchion anifeiliaid wedi ei dorri, neu fod methiant i gydymffurfio â'r gofyniad; neu
- (b) yn rhesymol yn amau, o ganlyniad i dorri'r gofyniad hwnnw neu fethu â chydymffurfio ag ef, bod mangre yn peri risg i iechyd dynol neu i iechyd anifeiliaid.

(2) Caniateir i hysbysiadau gael eu cyflwyno i feddiannydd unrhyw fangre, neu i'r person sydd â gofal am y fangre—

- (a) yn ei gwneud yn ofynnol i waredu ac, os yw'n gymwys, storio'r canlynol cyn ei waredu—
 - (i) sgil-gynhyrchion anifeiliaid a chynhyrchion sy'n dod o anifeiliaid;

- (ii) deunydd mewn mangre y mae paragraff (1)(b) yn gymwys iddi;
- (b) yn ei gwneud yn ofynnol i lanhau a diheintio mangre y mae paragraff (1)(b) yn gymwys iddi ac, os yw'n gymwys, pennu'r dull ar gyfer y glanhau a'r diheintio hwnnw;
- (c) gwahardd sgil-gynhyrchion anifeiliaid a chynhyrchion sy'n dod o anifeiliaid rhag y canlynol—
 - (i) cael eu symud neu eu cludo i mewn i'r fangre;
 - (ii) cael eu symud neu eu cludo i mewn i'r fangre oni wneir hynny'n unol ag amodau a bennir yn yr hysbysiad, gan gynnwys amod ynglŷn â chwblhau'n foddhaol y glanhau a'r diheintio yn unol â hysbysiad fel a ddarperir yn is-baragraff (b).

(3) Rhaid cydymffurfio â hysbysiad a gyflwynir o dan baragraff (2) a hynny ar draul y person y cyflwynir yr hysbysiad iddo, ac os na chydymffurfir ag ef, caiff person awdurdodedig drefnu cydymffurfedd ag ef ar draul y person hwnnw.

(4) Nid yw paragraff (1) yn gymwys pan fo Erthygl 46(1) (ataliadau dros dro, tynnu'n ôl a gwaharddiadau ar weithrediadau) o Reoliad Rheolaeth yr UE yn gymwys.

Y pŵer i ddatgelu gwybodaeth at ddibenion gorfodi

26.—(1) Mae'r rheoliad hwn yn gymwys i wybodaeth y mae awdurdod gorfodi neu berson awdurdodedig yn ei chael wrth orfodi'r Rheoliadau hyn.

(2) Caiff y person hwnnw ddatgelu'r wybodaeth i unrhyw awdurdod gorfodi neu berson awdurdodedig cyffelyb (a benodwyd yn rhywle arall o fewn y Deyrnas Unedig i orfodi Rheoliad Rheolaeth yr UE a Rheoliad Gweithredu'r UE) at ddibenion eu rôl orfodi.

(3) At ddibenion y rheoliad hwn, mae “awdurdod gorfodi” (“*an enforcement authority*”) yn cynnwys yr Asiantaeth Safonau Bwyd.

RHAN 6

Diwygiadau Canlyniadol

Diwygiadau canlyniadol

27. Mae Atodlen 2 i'r Rheoliadau hyn yn darparu ar gyfer diwygiadau canlyniadol.

RHAN 7

Dirymiadau, darpariaeth drosiannol a chychwyn

Dirymu Rheoliadau Sgil-gynhyrchion Anifeiliaid (Gorfodi) (Cymru) 2011

28.—(1) Mae Rheoliadau Sgil-gynhyrchion Anifeiliaid (Gorfodi) (Cymru) 2011 (“Rheoliadau 2011”)(**1**) wedi eu dirymu.

(2) Mae'r darpariaethau a ddirymwyd gan Reoliadau 2011 wedi eu hadfywio.

(3) Mae'r diwygiadau a wnaed gan ddarpariaethau Atodlen 2 i Reoliadau 2011 wedi eu dadwneud.

Dirymiadau eraill

29. Mae'r offerynnau canlynol wedi eu dirymu—

- (a) Rheoliadau Sgil-gynhyrchion Anifeiliaid (Cymru) 2006(**2**); a
- (b) Gorchymyn Ffliw Adar (H5N1) (Diwygiadau Amrywiol) (Cymru) 2007(**3**).

Darpariaeth drosiannol

30.—(1) Mae casglu, cludo a gwaredu deunydd Categori 3 yn Erthygl 10(f) o Reoliad Rheolaeth yr UE (deunydd Categori 3) wedi ei awdurdodi ar gyfer y cyfnod sy'n dod i ben ar 31 Rhagfyr 2012, pan fo gofynion paragraff (2) wedi eu bodloni.

(2) Y gofynion yw—

- (a) bod y deunydd yn bodloni Erthygl 36(3) o Reoliad Gweithredu'r UE a pharagraffau (a) i (c) o Bennod 4 o Atodiad 6 iddo: a
- (b) bod y dull o waredu deunydd o'r fath, yn ychwanegol at y dull yn Erthygl 14 o Reoliad Rheolaeth yr UE (gwaredu a defnyddio deunydd Categori 3), yn gwaredu—
 - (i) mewn tirlenwi awdurdodedig heb brosesu ymlaen llaw; neu
 - (ii) pan fo Erthygl 21 o Reoliad Rheolaeth yr UE wedi ei bodloni, i safle bionwy neu safle compostio ar gyfer trawsffurfio yn unol ag awdurdodiad o dan baragraff 2 o Adran 2 o

(1) O.S. 2011/600 (Cy.88).
(2) O.S. 2006/1293 (Cy.127).
(3) O.S. 2007/3375 (Cy.300).

Bennod 3 o Atodiad 5 i Reoliad Gweithredu'r
UE.

Cychwyn

31.—(1) Mae rheoliad 28 yn dod i rym am 12.01a.m. ar
20 Hydref 2011.

(2) Mae gweddill y rheoliadau'n dod i rym am 12.15a.m.
ar 20 Hydref 2011.

John Griffiths

Gweinidog yr Amgylchedd a Datblygu Cynaliadwy, un o
Weinidogion Cymru

27 Medi 2011

ATODLEN 1

Rheoliad 17

Gofynion Sgil-gynhyrchion Anifeiliaid

<i>Colofn 1</i> <i>Pwnc y gofyniad</i>	<i>Colofn 2</i> <i>Darpariaethau sy'n cynnwys y gofyniad sylfaenol</i>	<i>Colofn 3</i> <i>Darpariaethau i'w darllen ynghyd â'r ddarpariaeth (neu'r darpariaethau) a grybwyllir yng Ngholofn 2</i>
1. Rhwymedigaeth gyffredinol	Erthygl 4(1) neu (2) o Reoliad Rheolaeth yr UE	Erthygl 3 o Reoliad Gweithredu'r UE
2. Cyfyngiadau cyffredinol ar iechyd anifeiliaid	Erthygl 6(1) o Reoliad Rheolaeth yr UE	Erthygl 4 o Reoliad Gweithredu'r UE
3. Cyfyngiadau ar ddefnyddio at ddibenion bwydo	Erthygl 11 o Reoliad Rheolaeth yr UE	Rheoliadau 4 i 7 o'r Rheoliadau hyn ac Erthygl 5 o Reoliad Gweithredu'r UE
4. Cyfyngiadau ar fynediad at garcasau	Erthyglau 12, 13 a 21(1) o Reoliad Rheolaeth yr UE	Rheoliad 6 o'r Rheoliadau hyn
5. Gwaredu a defnyddio deunydd Categori 1	Erthygl 12 o Reoliad Rheolaeth yr UE, yn ddarostyngedig i Erthygl 16 (b) i (e) o'r Rheoliad hwnnw ac Erthygl 7 o Reoliad Gweithredu'r UE	Erthyglau 6(3) i (5), 8(1), 9(b) ac (c), 11(2), 12(2) a 15 o Reoliad Gweithredu'r UE

<i>Colofn 1</i> <i>Pwnc y gofyniad</i>	<i>Colofn 2</i> <i>Darpariaethau sy'n cynnwys y gofyniad sylfaenol</i>	<i>Colofn 3</i> <i>Darpariaethau i'w darllen ynghyd â'r ddarpariaeth (neu'r darpariaethau) a grybwyllir yng Ngholofn 2</i>
6. Gwaredu a defnyddio deunydd Categori 2	Erthygl 13 o Reoliad Rheolaeth yr UE, yn ddarostyngedig i Erthyglau 15(2)(b) ac 16(b) i (f) ac (h) o'r Rheoliad hwnnw	Rheoliad 8 o'r Rheoliadau hyn ac Erthyglau 6(3) i (5), 8(1), 9(b) ac (c), 10(1), 11(2), 12(2), 13(1) a 15 o Reoliad Gweithredu'r UE
7. Gwaredu a defnyddio deunydd Categori 3	Erthygl 14 o Reoliad Rheolaeth yr UE, yn ddarostyngedig i Erthygl 16 (b) i (h) o'r Rheoliad hwnnw ac Erthygl 7 o Reoliad Gweithredu'r UE	Rheoliad 30 o'r Rheoliadau hyn ac Erthyglau 6(3) i (5), 8(1), 9(b) ac (c), 10(1), 11(2), 12(2), 13(2), 15 a 36(3) o Reoliad Gweithredu'r UE
8. Casglu ac adnabod o ran categori a chludo	Erthygl 21(1) i (4) o Reoliad Rheolaeth yr UE	Erthygl 17 o Reoliad Gweithredu'r UE
9. Gallu olrhain	Erthygl 22(1) a (2) o Reoliad Rheolaeth yr UE	Erthygl 17 o Reoliad Gweithredu'r UE
10. Cofrestru gweithredwyr, sefydliadau neu safleoedd	Erthyglau 23(1) a (2) a 55 o Reoliad Rheolaeth yr UE	Rheoliad 11 o'r Rheoliadau hyn ac Erthyglau 20(1) a (2) a 32(7) o Reoliad Gweithredu'r UE

<i>Colofn 1</i> <i>Pwnc y gofyniad</i>	<i>Colofn 2</i> <i>Darpariaethau sy'n cynnwys y gofyniad sylfaenol</i>	<i>Colofn 3</i> <i>Darpariaethau i'w darllen ynghyd â'r ddarpariaeth (neu'r darpariaethau) a grybwyllir yng Ngholofn 2</i>
11. Cymeradwyo sefydliadau neu safleoedd	Erthyglau 24, 44(3) a 55 o Reoliad Rheolaeth yr UE	Rheoliad 13 o'r Rheoliadau hyn ac Erthyglau 19, 32(7) a 33 o Reoliad Gweithredu'r UE
12. Gofynion hylendid cyffredinol	Erthygl 25 o Reoliad Rheolaeth yr UE	Erthyglau 9(a), 19 a 20 o Reoliad Gweithredu'r UE
13. Trafod sgil-gynhyrchion anifeiliaid mewn busnesau bwyd	Erthygl 26 o Reoliad Rheolaeth yr UE	
14. Gwiriadau eu hunain	Erthygl 28 o Reoliad Rheolaeth yr UE	
15. Dadansoddi peryglon a manau rheoli allweddol	Erthygl 29(1) i (3) o Reoliad Rheolaeth yr UE	

<i>Colofn 1</i> <i>Pwnc y gofyniad</i>	<i>Colofn 2</i> <i>Darpariaethau sy'n cynnwys y gofyniad sylfaenol</i>	<i>Colofn 3</i> <i>Darpariaethau i'w darllen ynghyd â'r ddarpariaeth (neu'r darpariaethau) a grybwyllir yng Ngholofn 2</i>
16. Rhoi ar y farchnad sgil-gynhyrchion anifeiliaid a chynhyrchion sy'n dod o anifeiliaid i'w bwydo i anifeiliaid a ffermir ac eithrio anifeiliaid ffwr	Erthygl 31(1) o Reoliad Rheolaeth yr UE	Erthyglau 21 a 24(2) o Reoliad Gweithredu'r UE
17. Rhoi ar y farchnad a defnyddio gwrteithiau organig a deunyddiau i wella pridd	Erthygl 32(1) a (2) o Reoliad Rheolaeth yr UE	Rheoliad 7(1) o'r Rheoliadau hyn ac Erthyglau 22(1) i (3) a 36(1) o Reoliad Gweithredu'r UE
18. Casglu a symud ar gyfer gweithgynhyrchu cynhyrchion sy'n dod o anifeiliaid	Erthygl 34 o Reoliad Rheolaeth yr UE ac eithrio i'r graddau y mae'n ymwneud â mewforion	Erthygl 33 o Reoliad Rheolaeth yr UE ac Erthygl 23 o Reoliad Gweithredu'r UE
19. Gwahardd defnyddio ar gyfer gweithgynhyrchu cynhyrchion heb ddod o fewn Erthygl 33 neu 36 o Reoliad Rheolaeth yr UE	Erthygl 24(1) o Reoliad Gweithredu'r UE	Erthyglau 33 a 36 o Reoliad Rheolaeth yr UE
20. Rhoi bwyd anifeiliaid anwes ar y farchnad	Erthygl 35 o Reoliad Rheolaeth yr UE	Erthyglau 3 a 24(3) o Reoliad Gweithredu'r UE
